Open Doors
Drysau Agored

# Herio gwahaniaethu:
## *Canllaw i denantiaid preifat*








tai pawb

RLA RESIDENTIAL LANDLORDS ASSOC.

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

Open Doors
Drysau Agored

www.opendoors.wales
opendoors@taipawb.org
Tai Pawb, Tŷ Norbury, Heol Norbury, Caerdydd, CF5 3AS

# Cynnwys


4 Cyflwyniad

5 Beth yw'r Ddeddf Cydraddoldeb?

8 Herio Gwahaniaethu

10 Tenantiaid – a ydych chi'n gwybod am yr holl newidiadau sy'n effeithio ar y ffordd y byddwch yn rhentu?

11 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (2016)

13 A yw fy awdurdod lleol yn gallu helpu gyda phroblem tai?

14 Sefydliadau Defnyddiol

# Cyflwyniad

O bryd i'w gilydd, gall pob tenant sy'n byw yn y sector tai rhent preifat gael problemau gyda'u cartref, eu landlord neu eu hasiant gosod, neu eu cymdogion. Yn anffodus, mae tenantiaid preifat o gefndiroedd amrywiol yn fwy tebygol o wynebu problemau penodol sy'n ymwneud â'u tenantiaeth oherwydd pwy ydyn nhw.

Mae Drysau Agored wedi creu canllaw sy'n rhoi rhagor o wybodaeth i denantiaid preifat am eu hawliau dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'r hyn i'w wneud os byddant yn teimlo nad yw landlordiaid neu asiantau gosod wedi cynnal yr hawliau hynny. Rydym wedi nodi rhai problemau cyffredin hefyd, y mae grwpiau amrywiol penodol yn debygol o'u hwynebu ar sail pwy ydyn nhw. Ni fydd yr holl broblemau hyn o ganlyniad i wahaniaethu.

Mae Drysau Agored yn gynllun dwy flynedd a reolir gan Dai Pawb mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Landlordiaid Preswyl. Rydym yn darparu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i denantiaid, landlordiaid ac asiantau gosod yn y sector tai rhent preifat er mwyn atal a lleihau gwahaniaethu a chamdriniaeth. Mae gwahaniaethu a chamdriniaeth yn faes eang ac efallai y byddwch yn gweld nas rhoddir sylw yn y canllaw hwn i broblem benodol yr ydych chi'n ei hwynebu. Os oes gennych chi gwestiynau neu os hoffech gael cymorth ychwanegol, cysylltwch â ni a byddwn yn falch o'ch cynorthwyo ymhellach.

**Prosiect Drysau Agored**
c/o Tai Pawb, Norbury House,
Norbury Road, Cardiff, CF5 3AS

www.facebook.com/OpenDoorsTP

@OpenDoorsTP

opendoors@taipawb.org.uk

07388 220388

# Beth yw'r Ddeddf Cydraddoldeb?

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ym mis Hydref 2010, gan gryfhau'r diogelwch i bobl ym Mhrydain rhag iddynt gael eu trin mewn ffordd annheg oherwydd pwy ydyn nhw.

Caiff pobl eu diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Roedd y ddeddf yn diffinio '**nodweddion**' allweddol a ddiogelir ac na ellir eu defnyddio er mwyn trin pobl mewn ffordd annheg.

Mae'r nodweddion gwarchodedig fel a ganlyn:

- **Oedran**
- **Anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor**
- **Crefydd/Ffydd**
- **Ailbennu Rhywedd**
- **Priodas neu Bartneriaeth Sifil**
- **Rhyw**
- **Cyfeiriadedd Rhywiol**
- **Beichiogrwydd neu Famolaeth**
- **Hil a Chenedligrwydd**

Mae gwahaniaethu yn golygu trin unigolyn mewn ffordd annheg oherwydd pwy ydyn nhw neu oherwydd bod ganddynt nodweddion penodol (a enwir uchod). Pe byddai dyn siop yn gwahardd unigolyn ifanc du yn ei arddegau rhag dod i mewn i'w siop oherwydd ei fod yn gofidio y byddai'r unigolyn hwn yn dwyn eitemau o'i siop, mae hon yn enghraifft o drin rhywun mewn ffordd annheg. Yn yr achos hwn, mae'r dyn siop yn trin pobl ifanc duon yn eu harddegau mewn ffordd annheg ar sail eu hil a'u cenedligrwydd, sy'n nodwedd warchodedig.

Ceir pedwar prif fath o wahaniaethu.

**Math 1:**

**Gwahaniaethu Uniongyrchol** yw pan gaiff unigolyn eu trin yn wael oherwydd nodwedd warchodedig sydd ganddynt neu y bernir ei bod ganddynt. Er enghraifft:

> *Rydych chi wedi gweld hysbyseb sy'n nodi bod gan landlord ystafell i'w rhentu mewn eiddo gyda thri cydletywr arall. Ni fydd y landlord yn byw yn yr eiddo ac mae'n dymuno rhentu'r ystafell am 6 mis, sy'n ddelfrydol i chi.*
>
> *Rydych yn ffonio'r landlord i drefnu ymweliad, ond pan fyddwch yn mynd i weld yr eiddo, mae'r landlord yn synnu i weld eich bod yn gwisgo hijab. Maent yn dweud nad oeddech chi'n 'swnio' fel Mwslim ar y ffôn ac nad ydynt yn dymuno rhentu'r ystafell i chi nawr. Byddant yn eich troi i ffwrdd ar ôl gwrthod caniatáu i chi weld yr ystafell.*

Mae hon yn enghraifft o wahaniaethu uniongyrchol yn erbyn rhywun sy'n Fwslim ac mae'n erbyn y gyfraith. Mae crefydd a ffydd yn un o'r nodweddion

gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

**Math 2:**

**Gwahaniaethu Anuniongyrchol** yw pan geir rheol, polisi neu ffordd o wneud pethau i bawb ond mae'n cael effaith negyddol ac mewn ffordd anghymesur ar grwpiau penodol o bobl y mae ganddynt nodwedd warchodedig. Er enghraifft:

> *Mae landlord wedi nodi nad ydynt yn derbyn tenantiaid sydd ag anifeiliaid anwes oherwydd nad ydynt yn dymuno i'r anifeiliaid anwes beri difrod i'r eiddo. Byddai'r polisi cyffredinol hwn yn gwahardd rhywun sydd â chi cymorth ac y mae angen y ci hwnnw arnynt er mwyn cynorthwyo gyda'u hanabledd neu gyflwr iechyd. Byddai modd dadlau bod hwn yn cyfateb â gwahaniaethu anuniongyrchol.*

**Math 3:**

**Aflonyddu** yw pan darfir ar eich urddas neu pan gaiff amgylchedd anghyfeillgar, bychanol a sarhaus ei greu fel ymateb i'ch nodwedd warchodedig.

Aflonyddu yw ymddygiad annymunedig a gyflawnir dro ar ôl tro. Gallai hyn gynnwys:

- camdriniaeth neu eiriau ysgrifenedig neu ar lafar
- negeseuon e-bost, negeseuon trydar neu sylwadau sarhaus ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol
- delweddau a graffiti
- ystumiau corfforol
- edrychiadau
- jôcs

Er enghraifft:

> *Byddwch chi a'ch partner yn mynd i weld eiddo sydd ar gael i'w rentu. Rydych wedi dweud wrth yr asiant gosod eich bod yn chwilio am eiddo addas ar gyfer y ddau ohonoch.*
>
> *Pan fyddwch yn cyrraedd i weld yr eiddo, mae'r asiant gosod yn synnu gweld mai dau ddyn ydych chi a'ch partner a'ch bod mewn perthynas, ac mae'n gwneud sylwadau a jôcs annymunedig.*
>
> *Er hyn, rydych chi a'ch partner yn penderfynu ymrwymo i'r denantiaeth. Fodd bynnag, bob tro y byddwch yn siarad â'ch asiantaeth gosod, byddant yn gwneud sylwadau am y ffaith eich bod yn hoyw. Gydag amser, mae hyn yn peri i chi deimlo dan fygythiad ac yn annifyr.*

Mae hwn yn fath o aflonyddu gan bod yr asiant gosod wedi creu amgylchedd sarhaus ac anghyfeillgar i chi.

Mae'n bwysig cofio y gall y math hwn o ymddygiad waethygu a datblygu i fod yn drosedd. Gallai hyn gynnwys eich landlord neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan yn tarfu ar eich mwynhad chi o'ch cartref mewn ffordd fwriadol.

**Math 4:**

Mae **erledigaeth** yn digwydd pan fyddwch yn cael eich trin mewn ffordd annheg oherwydd eich bod wedi gwneud cwyn ynghylch gwahaniaethu dan y Ddeddf Cydraddoldeb, 2010. Mae hyn yn berthnasol hefyd os byddwch yn cael eich trin mewn ffordd annheg oherwydd bod rhywun o'r farn eich bod yn mynd i wneud cwyn neu eich bod yn cynorthwyo rhywun arall sy'n gwneud cwyn.

Er enghraifft:

> *Rydych yn fyfyriwr rhyngwladol sy'n byw gyda myfyrwyr eraill. Rydych yn darganfod bod y myfyrwyr eraill yn talu llai o rhent na chi bob mis. Rydych yn siarad gyda'ch landlord ac yn gofyn a fyddai modd iddynt ostwng y rhent gan nad yw hi'n deg bod yn rhaid i chi dalu mwy yn eich barn chi. Rydych yn dweud wrthynt hefyd eich bod o'r farn eich bod yn destun gwahaniaethu, ac y byddwch yn ceisio cymorth os na chaiff y mater ei ddatrys.*
>
> *Wythnos yn ddiweddaraf, byddwch yn cael llythyr gan eich landlord yn gofyn i chi adael yr eiddo oherwydd 'ymddygiad afresymol'.*

Yn yr achos hwn, mae'r landlord wedi eich trin mewn ffordd annheg oherwydd eu bod o'r farn y byddwch yn gwneud hawliad gwahaniaethu yn eu herbyn.

# Herio Gwahaniaethu

Os ydych chi'n teimlo eich bod wedi bod yn destun gwahaniaethu, mae gennych yr hawl i wneud hawliad cyfreithiol. Fe'ch cynghorir i geisio cyngor diduedd yn y lle cyntaf. Gallwch weld gwybodaeth am asiantaethau perthnasol a sut i droi atynt ar ein tudalen 'Sefydliadau Defnyddiol'. Yn ychwanegol i'r asiantaethau perthnasol, byddem yn estyn croeso i chi gysylltu â Drysau Agored am gyngor diduedd am ddim.

**Cam Un: Ymateb Anffurfiol**

Ceisiwch siarad gyda'ch landlord neu'ch asiantaeth gosod os ydych chi'n teimlo eich bod wedi bod yn destun gwahaniaethu. Esboniwch eich rhesymau ynghylch pam yr ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich trin mewn ffordd waeth neu mewn ffordd annheg. Os na fyddwch yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud hyn eich hun, mae wastad yn syniad da ceisio cyngor yn gyntaf. Bydd ein prosiect, Drysau Agored, yn gallu eich helpu i wneud cwyn anffurfiol.

**Cam Dau: Ymateb Ffurfiol**

Os na fyddwch yn gallu datrys y mater mewn ffordd anffurfiol, efallai y bydd angen i chi wneud cwyn ffurfiol i'ch landlord neu'ch asiantaeth gosod. Gallwch ofyn iddynt sut y byddech yn gwneud cwyn ffurfiol. Fel arfer, bydd gofyn ysgrifennu llythyr sy'n nodi eich pryderon a'i anfon at y landlord neu'r asiantaeth gosod.

Yn gyffredinol, rhaid i chi sicrhau eich bod yn nodi'r wybodaeth ganlynol yn y llythyr.

1. Dyddiad y digwyddiad(au).
2. Disgrifiwch yr hyn a ddigwyddodd a'i effaith arnoch chi. Meddyliwch am pam, ble a sut. Byddwch yn benodol ac yn glir. Os ydych chi o'r farn eich bod wedi bod yn destun gwahaniaethu, nodwch hynny'n glir.
3. Esboniwch y camau yr ydych chi wedi'u cymryd (yn fanwl) er mwyn ceisio datrys y broblem mewn ffordd anffurfiol.
4. Esboniwch yr hyn yr hoffech ei weld yn digwydd nesaf fel ymddiheuriad, newid mewn polisi ac ati.
5. Dylech gadw copi o'r llythyr a chael derbynneb ar gyfer y trefniant postio pan fo modd.

Gall Drysau Agored eich cynorthwyo i ysgrifennu llythyr. Neu, mae llythyrau drafft ar gael ar y rhyngrwyd ac mae'r rhain yn gallu bod yn ddefnyddiol os nad ydych yn siŵr am yr hyn i'w wneud. Gellir eu gweld ar wefan y **Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb**.

## Cam Tri: Gwneud hawliad cyfreithiol

**Ble** - Gallwch wneud hawliad am wahaniaethu yn erbyn landlord preifat neu asiantaeth gosod mewn Llys Sirol. Fe'ch cynghorir bob tro i ymgynghori gyda chyfreithiwr neu gynghorydd cyfreithiol cyn bwrw ymlaen gyda hyn.

**Pryd** - Ceir terfyn amser ac mae'n rhaid i chi wneud hawliad ynghylch gwahaniaethu cyn pen **chwe mis yn llai un diwrnod**.

**Sut i ddechrau** – Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen hawliad. Fel arfer, codir ffi am wneud hyn, ond efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am ostyngiad os ydych chi'n cael budd-daliadau neu os ydych chi ar incwm isel. Ceisiwch siarad gyda sefydliadau megis **Cyngor ar Bopeth** er mwyn cael gwybodaeth bellach.

**Yr hyn i'w ddangos** - Byddai angen i chi sicrhau eich bod yn dangos digon o ffeithiau i'r llys er mwyn profi bod gwahaniaethu wedi digwydd. Mae'n syniad da cadw'r holl ohebiaeth rhyngoch chi a'ch landlord neu'ch asiantaeth gosod er mwyn eich cynorthwyo gyda hyn. Y rhain yw pethau fel negeseuon e-bost, llythyrau a negeseuon testun. Yna, bydd gofyn i'r landlord neu'r asiantaeth gosod brofi nad gwahaniaethu anghyfreithlon oedd hyn.

**Beth fydd yn digwydd os byddwch chi'n ennill** – Os bydd y llys yn barnu bod y landlord neu'r asiantaeth gosod yn gweithredu mewn ffordd anghyfreithlon, efallai y byddant yn rhoi gorchymyn iddynt i dalu iawndal i chi, i wneud datganiad i'r cyhoedd bod y weithred hon yn wahaniaethu anghyfreithlon, neu orchymyn bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud.

**Beth fydd yn digwydd os byddwch chi'n colli** – Os byddwch yn colli'r achos, efallai y bydd y llys yn mynnu eich bod chi yn talu costau'r ochr arall, felly mae hi wastad yn bwysig eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiwr neu gynghorydd cyfreithiol cyn gwneud hawliad cyfreithiol.

### Beth allaf ei wneud cyn ac yn ystod hawliad cyfreithiol?

Mae gwneud hawliad ynghylch gwahaniaethu gan eich landlord neu'ch asiantaeth gosod yn gallu bod yn brofiad poenus iawn. Gall gwasanaethau cymorth helpu yn ystod y cyfnod anodd hwn trwy gynnig cyngor ac arweiniad trwy gydol y broses.

# Tenantiaid – a ydych chi'n gwybod am yr holl newidiadau sy'n effeithio ar y ffordd yr ydych yn rhentu?

Mae'r ffordd y mae'r sector tai rhent preifat yn gweithio wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf ac mae mwy o newidiadau ar y gorwel. Mae hyn yn golygu bod gwybod eich hawliau yn gallu bod yn ddryslyd. Er mwyn rhoi'r diweddaraf i chi, rydym wedi nodi rhai prif bwyntiau y mae'n bwysig i bob un sy'n rhentu eu gwybod yn ein barn ni.

## Rhentu Doeth Cymru

**Mae'n ofyniad cyfreithiol bod pob landlord preifat yn cofrestru eu hunain a'u heiddo mewn cynllun o'r enw Rhentu Doeth Cymru.**

Yn ogystal, os bydd landlord yn dymuno rheoli eu cartref eich hunain, rhaid iddynt fod yn drwyddedig, dangos eu bod yn 'addas ac yn briodol' i ddal trwydded a chwblhau hyfforddiant cymeradwy. Ni fydd angen i landlordiaid fod yn drwyddedig os rheolir eu heiddo gan asiant gosod – yn yr achos hwn, bydd angen i'r asiantau gosod fod yn drwyddedig.

Mae'n anghyfreithlon i landlordiaid rentu eiddo os nad ydynt yn gofrestredig. Yn ogystal, mae'n anghyfreithlon i landlordiaid neu asiantau gosod reoli eiddo os nad ydynt yn drwyddedig.

Gallwch ddarganfod a yw'ch landlord neu'ch asiantaeth gosod yn gofrestredig ac yn drwyddedig trwy ddefnyddio'r gofrestr gyhoeddus **hon**.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch Canllaw i Denantiaid Rhentu Doeth Cymru **yma**.

**Beth fydd yn digwydd os nad yw fy landlord neu'r asiantaeth gosod yn gofrestredig?**

Mae Rhentu Doeth Cymru neu'ch cyngor lleol yn gyfrifol am benderfynu ar yr hyn a fydd yn digwydd os nad yw landlord neu asiantaeth gosod yn gofrestredig/trwyddedig. Gan ddibynnu ar y penderfyniad a wneir, efallai y byddant yn wynebu un o'r cosbau canlynol:

- Efallai y bydd eich landlord neu'ch asiantaeth gosod yn wynebu erlyniad.
- Efallai y bydd yn rhaid iddynt dalu hysbysiad cosb benodedig i chi (gan ddibynnu ar y drosedd).
- Efallai y gorfodir 'gorchymyn atal rhent', lle na fydd angen i'r tenant dalu rhent i'r landlord.
- Efallai y gorfodir 'gorchymyn ad-dalu rhent', lle y byddai'n rhaid i'r landlord neu'r asiantaeth gosod ddychwelyd taliadau rhent am gyfnod penodol.

Am ragor o wybodaeth, trowch at wefan Shelter Cymru **yma**.

Os oes gennych chi bryderon am eich landlord neu'ch asiantaeth gosod (hyd yn oed os ydynt yn gofrestredig/trwyddedig), gallwch eu hadrodd i Rhentu Doeth Cymru trwy eu **gwefan**.

## Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (2016)

Cyflwynwyd y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) er mwyn sicrhau bod y broses o rentu cartref yn symlach ac yn haws i bawb dan sylw. Bydd hon yn dod i rym yn 2019, ond nid ydym yn gwybod yr union ddyddiad ar hyn o bryd.

### 1) Contractau Meddiannaeth

Caiff cytundebau tenantiaeth eu symleiddio a'u disodli gyda rhywbeth o'r enw '**contractau meddiannaeth**'. Rhoddir **contract safonol** i denantiaid preifat a bydd y gyfraith yn pennu gofyniad bod yn rhaid i'ch landlord roi contract ysgrifenedig i chi. Bydd y ddogfen hon yn cynnwys hawliau a chyfrifoldebau ar gyfer y landlord ac ar eich cyfer chi, a bydd yn cynnwys y dewis i ychwanegu cymalau ychwanegol er mwyn delio ag eitemau megis anifeiliaid anwes neu gymalau torri.

### 2) Ffit i Bobl Fyw

Gall tai o ansawdd gwael effeithio ar eich iechyd corfforol a meddyliol. O ganlyniad, bydd yn rhaid i bob eiddo rhent preifat basio'r safonau 'ffit i bobl fyw' a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i'ch landlord sicrhau bod eich cartref yn 'ffit i bobl fyw' ar ddechrau eich tenantiaeth ac nes bydd eich tenantiaeth yn dod i ben. Bydd modd i chi gymryd camau os nad yw hyn yn wir.

### 3) Troi Allan er mwyn Dial

Weithiau, efallai y byddwch yn gofidio ynghylch gwneud cwyn am amodau eich cartref i'ch landlord rhag ofn y byddwch yn cael eich troi allan. Bydd y ddeddf yn nodi ei bod yn anghyfreithlon i landlord preifat droi tenant allan os byddant wedi gwneud cwyn ddilys am amodau'r eiddo. Bydd gan y llys y grym i wrthod gorchymyn adennill meddiant pan fyddant o'r farn bod y landlord wedi gwneud yr hawliad er mwyn osgoi cadw'r eiddo mewn cyflwr da ac yn ffit i bobl fyw.

### 4) Cyd-Denantiaid

Os ydych chi'n rhentu eich cartref fel cyn-denantiaid ac yn darganfod bod y tenant(iaid) arall(eraill) yn dymuno symud allan neu eu bod yn cael eu troi allan, bydd y ddeddf yn ei gwneud yn bosibl i'ch tenantiaeth chi barhau. Bydd hyn yn lleihau risg digartrefedd os byddwch yn dymuno aros yn eich cartref ar ôl i'r tenant(iaid) arall(eraill) adael.

### 5) Gwaharddiad ar Ffi Asiantaethau Gosod

Cyflwynwyd y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd, ac ati) (Cymru) er mwyn sicrhau bod rhentu yn deg ac yn fforddiadwy i bob tenant. Pan fydd mewn grym, ni fydd asiantaethau gosod yn gallu codi ffioedd am lofnodi contract ac adnewyddu tenantiaeth ymhlith pethau eraill mwyach.

Dim ond eu rhent, blaendal diogelwch a blaendal dal y bydd angen i denantiaid eu talu. Bydd y gwaharddiad yn golygu y bydd asiantau gosod sy'n ceisio codi ffioedd anghyfreithlon ar denantiaid mewn perygl o golli eu trwydded Rhentu Doeth Cymru, cael dirwy trwy hysbysiad cosb benodedig gan y Cyngor neu hyd yn oed bod yn destun achos llys a chael dirwy ddiderfyn

Cliciwch **yma** am ragor o wybodaeth am Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (2016).

# A yw fy awdurdod lleol yn gallu helpu gyda phroblem tai?

**Ydy!**

Mae'ch awdurdod lleol yn gyfrifol am amrediad o wasanaethau gan gynnwys tai.

Dim ond yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful y mae Drysau Agored yn weithredol ar hyn o bryd, ond rydym wedi rhestru'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i alluogi tenantiaid ledled Cymru i elwa o'r canllaw hwn.

## A

**Dinas a Sir Abertawe** - 01792 533100 Ar gyfer Canolfan Alwadau'r Amgylchedd ffoniwch 01792 635600 neu anfonwch ebost at **evh@swansea.gov.uk**.

## B

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** - 01495 311556. I gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd ffoniwch y rhif hwn neu anfonwch ebost at: **environmental.health@blaenau-gwent.gov.uk**

**Cyngor Bro Morgannwg** - 01446 700111. I gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd cysylltwch â'r **Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR** 0300 123 6696.

## C

**Cyngor Dinas Caerdydd** – I gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd ffoniwch y **Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR** 0300 123 6696.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** - 01495 873 552. **Tîm Iechyd yr Amgylchedd** - 01443 811379/811403

**Cyngor Dinas Casnewydd** - 01633 656 656. Email **iechyd.amgylcheddol@casnewydd.gov.uk** neu cysylltwch â Chyngor Dinas Casnewydd a gofynnwch am dîm iechyd yr amgylchedd a thai.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** - 01639 686868. Environmental Health - 01639 685678

**Cyngor Ceredigion** - 01545 57088. Gellir cysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd gan ddefnyddio'r **ffurflen** hon neu ffonio 01545 572105.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** - 01492 574000. Gellir gwneud ymholiadau rheoliadol neu ymholiadau tai ar y rhif ffôn hwn.

## D

**Cyngor Sir Ddinbych** - 01824 706000. Gallwch hefyd ddweud wrthyn nhw am broblemau gyda chyflwr tai **ar-lein**.

## F

**Cyngor Sir y Fflint** - 01352 703777. Cysylltwch â Thîm Iechyd yr Amgylchedd ar 01352 703440.

**Cyngor Sir Fynwy** - 01633 644644. Gellir cysylltu ag Adran Iechyd yr Amgylchedd ar y rhif ffôn hwn.

## G

**Cyngor Sir Gâr** - Gellir cysylltu â **Thîm Iechyd yr Amgylchedd** ar yr un rhif ffôn.

**Cyngor Gwynedd** - 01766 771000. Rhifau cyswllt Tîm Tai Sector Preifat Cyngor Gwynedd yw 01286 682853/01758704096 neu gellir cysylltu â nhw trwy ebostio: **tai@gwynedd.llyw.cymru**

## M

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** - 01685 725000. **Tîm Amddiffyn yr Amgylchedd a Gorfodaeth Tai** ebost: **gwasanaethauigwsmeriaid@merthyr.gov.uk**.

## P

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** - 01656 643643. I gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd ffoniwch y **Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR)** 0300 123 6696

**Cyngor Sir Penfro** - 01437 764551. Cysylltwch â'r rhif hwn a gofynnwch am dîm iechyd yr amgylchedd os hoffech ddweud wrthyn nhw am eiddo mewn cyflwr gwael.

**Cyngor Sir Powys** - 01597 826000. Cysylltwch â'r rhif hwn a gofynnwch am dîm iechyd yr amgylchedd os hoffech ddweud wrthyn nhw am eiddo mewn cyflwr gwael.

## R

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** - 01443 425005. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 01443 425005. I gysylltu â'r Tîm Tai, sy'n gallu helpu gyda safonau eiddo, cysylltwch â 01443 425777.

## T

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** - I gysylltu â Thîm Iechyd y Cyhoedd cysylltwch â: 01633 647622, ebost: **public.health@torfaen.gov.uk**.

## W

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** - 01978 292000. I gysylltu â Thîm Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Tai, ffoniwch 01978 292040 neu anfonwch ebost at: **HealthandHousing@wrexham.gov.uk.**

## Y

**Cyngor Sir Ynys Môn** – 01248 750057. . I gysylltu â'r Tîm Gorfodaeth Tai Preifat ffoniwch 01248 752820 neu anfonwch ebost at: **iechydyramgylchedd@ynysmon.gov.uk**.

# Sefydliadau Defnyddiol

**Llinell Gyngor Cyngor ar Bopeth Cymru - 03444 77 20 20**
Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor cyfrinachol a diduedd yn rhad ac am ddim am ystod eang o faterion.

**Anabledd Cymru – 029 2088 7325**
Mae Anabledd Cymru yn bodoli i hyrwyddo hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth yr holl bobl anabl yng Nghymr.

**Grant Cyfleusterau i'r Anabl**

**Y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Cydraddoldeb – 0808 800 0082**
Mae'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Cydraddoldeb yn cynghori ac yn cynorthwyo unigolion ynghylch materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban.

**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**
Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn diogelu pobl rhag triniaeth sy'n gwahaniaethu, ac yn sicrhau bod sefydliadau fel y Llywodraeth yn atebol am yr hyn a wnânt.

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn - 0808 8010 800**
Llinell gymorth gyfrinachol sy'n cynnig cymorth i unrhyw un sy'n wynebu cam-drin domestig ac i unigolion sy'n dymuno dysgu mwy a cheisio cyngor.

**Mind Cymru – 0300 123 3393**
Mae Mind Cymru yn darparu **cyngor a chymorth** er mwyn grymuso unrhyw un sy'n dioddef problem iechyd meddwl.

**Gofal - 01656 647 722**
Mae Gofal yn darparu ystod eang o wasanaethau i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan gynorthwyo eu hannibyniaeth, eu hadferiad, eu hiechyd a'u lles.

**Race Equality First – 029 2048 6207**
Mae gan Race Equality First (REF dros 40 mlynedd o brofiad fel y corff arweiniol cydnabyddedig yn Ne Cymru er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethu a throseddau casineb a hyrwyddo'r neges bod Cydraddoldeb Hiliol yn hawl dynol.

**Rhentu Doeth Cymru - 03000 133 344**
Mae Rhentu Doeth Cymru yn prosesu cofrestriadau ac yn dyfarnu trwyddedau i landlordiaid ac asiantau y mae angen iddynt gydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014.

**Cymdeithas Landlordiaid Preswyl - 03330 142 998**
Y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl yw'r prif lais dros landlordiaid yng Nghymru a Lloegr.

**Shelter Cymru - 0345 075 5005**
Mae Shelter Cymru yn gweithio dros bobl mewn angen o ran tai, gan gynnig cyngor annibynnol ac arbenigol ynghylch tai yn rhad ac am ddim.

**Stonewall Cymru - 029 2023 7744**
Mae Stonewall Cymru yn ymgyrchu dros gydraddoldeb ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a thrawsrywiol ar draws Prydain.

**Cyngor Ffoaduriaid Cymru – 029 2048 9900**
Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn grymuso ceiswyr lloches a ffoaduriaid i greu dyfodol newydd yng Nghymru, gan helpu i greu cymdeithas lle y mae parch a chydraddoldeb i bawb yn hollbwysig.

# Gwneud Atgyfeiriad i Ddrysau Agored



A ydych chi wedi cwrdd â landlord neu denant yn y sector rhentu preifat sydd â phroblem ynglŷn â chydraddoldeb ac amrywiaeth? Gall hyn fod yn:

- Landlord sy'n dymuno gwybod beth y gall ddweud a beth na all ddweud mewn hysbyseb ynglŷn â'u heiddo
- Tenant sy'n meddwl bod gwahaniaethu yn ei erbyn wedi digwydd efallai, ond nid yw'n siŵr beth i'w wneud
- Landlord sydd angen rhywfaint o ganllawiau ynglŷn â gwneud addasiadau i'w eiddo ar gyfer tenant anabl
- Landlord â thenant sydd angen rhywfaint o gefnogaeth, ond nid yw'n siŵr lle i edrych am help

. . . neu unrhyw broblemau tebyg . . . Gallwch chi eu cyfeirio nhw at Ddrysau Agored!



Rydym ni yn cynnig canllawiau, cefnogaeth a hyfforddiant, gyda'r nod o leihau anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn y sector rhentu preifat. Gallwch chi wneud atgyfeiriad yn uniongyrchol mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Anfon neges uniongyrchol atom ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn

@OpenDoorsTP /OpenDoorsTP

- Anfon e-bost at **opendoors@taipawb.org**
- Ffonio **07585 405555**
- Defnyddio'r cyfleuster sgwrsio byw ar ein gwefan **www.opendoors.wales**
- Ysgrifennu atom at Drysau Agored, Unedau 2-3, Tŷ Norbury, Heol Norbury, Caerdydd, CF5 3AS